CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r: Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu

Dyddiad y cyfarfod: **17 Gorffennaf 2024**

Teitl: Dyletswydd Trais Difrifol: Asesiad o Anghenion Strategol Trais Difrifol Dyfed Powys a Strategaeth Dyletswydd Trais Difrifol Dyfed Powys

Pwrpas yr adroddiad: Er mwyn i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu fod yn ymwybodol o'r Asesiad o Anghenion Strategol Dyletswydd Trais Difrifol Dyfed Powys a Strategaeth Dyletswydd Trais Difrifol Dyfed Powys

Rheswm pam bod y Pwyllgor wedi gofyn am y wybodaeth:
Gan mai dyma'r Pwyllgor Craffu dynodedig sydd i wneud trosolwg o effeithiolrwydd cyffredinol y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol.

Cefndir
Wedi'i chyflwyno gan Ddeddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd 2022, mae'r Ddyletswydd Trais Difrifol yn gofyn i ardaloedd plismona lleol gyflawni sawl peth gan gynnwys:

- Cytuno ar drefniant o bartneriaethau lleol i arwain ar y ddyletswydd.
- Cytuno ar ddiffiniad o drais difrifol.
- Rhannu data cyson a phrosesau dadansoddol i gynhyrchu Asesiad o'r Anghenion Strategol. (Atodiad 1)
- Cynhyrchu Strategaeth (Atodiad 2) i nodi sut y bydd y ddyletswydd yn cael ei gweithredu'n lleol.

Dechreuodd y Ddyletswydd Trais Difrifol ym mis Ionawr 2023 a chyflwynwyd papur rhagarweiniol i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar 22 Mai 2023 ac yna ei gyflwyno i'r Cabinet ar 6 Mehefin 2023 er mwyn tynnu sylw at oblygiadau'r ddyletswydd i'r Cyngor, ac i ffurfioli'r cyfrifoldeb am y trefniadau o ran y gwaith a'r bartneriaeth.

Y strwythur o ran y bartneriaeth a ddefnyddir gan Ddyfed Powys i gyflawni gofynion llywodraethu'r Ddyletswydd Trais Difrifol yw Bwrdd Trais Difrifol Strategol a Throseddau Cyfundrefnol rhanbarthol, ac y mae swyddogion y Cyngor yn mynychu cyfarfodydd y Bwrdd hwn.

Y Sefyllfa Bresennol
Diffiniad Trais Difrifol Dyfed Powys
Mae'r Bwrdd Trais Difrifol Strategol a Throseddau Cyfundrefnol rhanbarthol wedi cytuno i fabwysiadu diffiniad Sefydliad Iechyd y Byd o drais sef:

"Trais yw'r defnydd bwriadol o rym corfforol neu bŵer, dan fygythiad neu'n gyflawnedig, yn erbyn eich hun, person arall neu yn erbyn cymuned sydd naill

ai'n arwain at neu sydd â thebygolrwydd uchel o arwain at anaf, marwolaeth, niwed seicolegol, camddatblygiad, neu amddifadedd".

Yn ogystal, mae'r diffiniad yn cydnabod bod y Ddyletswydd Trais Difrifol yn cynnwys cam-drin domestig ac ymosodiad rhywiol.

Cytunwyd gan y Bwrdd Trais Difrifol Strategol a Throseddau Cyfundrefnol rhanbarthol y byddai'r Asesiad o Anghenion Strategol yn canolbwyntio ar y mathau o droseddau a'r disgrifyddion canlynol (ffigwr 1).



ffigwr 1: Diffiniad o Drais Strategol a Mathau o Droseddau a Disgrifyddion Dyfed Powys

Mathau o Droseddau - Trais ag anaf (nad yw'n gysylltiedig â thrais domestig), dynladdiadau, trais rhywiol (treisio a throseddau rhywiol difrifol eraill), lladrad a bwrgleriaeth waethygedig.

Disgrifyddion – Tebygolrwydd uchel o arwain at anaf, marwolaeth a niwed seicolegol felly byddant yn cynnwys achosion lle mae anaf wedi digwydd a lle nad oes anaf wedi digwydd.

Strategaeth Trais Difrifol Dyfed Powys

Llywiodd canfyddiadau'r Asesiad o Anghenion Strategol Trais Difrifol Dyfed Powys yr amcanion strategol canlynol am y 12 mis nesaf er mwyn atal a lleihau trais difrifol:

- Blaenoriaeth sy'n canolbwyntio ar fygythiadau ar-lein, gan gefnogi plant a phobl ifanc, rhieni ac athrawon i gynyddu eu gwybodaeth a'u cydnerthedd. Yn benodol, bydd y cymorth yn canolbwyntio ar gefnogi rhieni gyda chodi ymwybyddiaeth ac addysg.
- Blaenoriaeth sy'n canolbwyntio ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, gan weithio, yn benodol, i wella addysg gymunedol, adrodd am drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a rhannu data ymhlith y bartneriaeth. Byddwn yn canolbwyntio ar gyflawni mentrau allweddol megis dull Amlasiantaethol o osod Tasgau a'u Cydlynu er mwyn canfod a mynd i'r afael â chyflawnwyr trais difrifol a'r rhaglen cymorth o ran hyfforddiant ac atgyfeirio a adwaenir fel IRIS, sef Adnabod ac Atgyfeirio i Wella Diogelwch ar

gyfer Ymarfer Cyffredinol mewn Iechyd, yn ogystal â chynorthwyo â chyfathrebu yn ymwneud â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

- Blaenoriaeth sy'n canolbwyntio ar economi'r nos, yn enwedig cael mewnwelediad pellach i drais difrifol sy'n gysylltiedig ag alcohol yn lleol, gan ymgorffori prosiectau presennol a mentrau addysg. Byddwn yn comisiynu dadansoddiad pellach o'r maes hwn i sicrhau bod unrhyw waith pellach yn cael ei arwain gan dystiolaeth.

Mae'r bartneriaeth wedi cytuno ar ystod o weithgareddau i leihau'r risgiau o drais a bod yn agored i niwed er mwyn cefnogi'r amcanion strategol. Mae'r rhain wedi'u nodi yn y Cynllun Gweithredu yn y ddogfen Strategaeth atodedig (Atodiad 2).

Defnyddiwyd rhywfaint o'r grant sydd ar gael i weithredu'r ddyletswydd er mwyn cyflogi Cydlynydd Dyletswydd Trais Difrifol rhanbarthol i gydlynu'r gweithgarwch o ran ymyrryd ar draws rhanbarth Dyfed Powys (wedi'i leoli o fewn gweithle Cyngor Sir Gâr).

Mae'r cydlynydd Dyletswydd Trais Difrifol wedi creu Grŵp Cyflawni Gweithredol rhanbarthol a fydd yn gweithio o dan lywodraethiant y Bwrdd Trais Difrifol Strategol a Throseddau Cyfundrefnol rhanbarthol ac yn gweithio ochr yn ochr â Byrddau Trais Difrifol Strategol a Throseddau Cyfundrefnol lleol i nodi ymyriadau a dyraniad cyllid.

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:
A oes asesiad effaith integredig wedi'i gwblhau? Os na, esboniwch pam.
Heb ei gwblhau gan nad yw'r adroddiad yn newid Polisi na Gwasanaeth.

Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig:
Hirdymor:
Cydweithio:
Cynnwys:
Atal:
Integreiddio:

Argymhelliad / Argymhellion:

i. Nodi canfyddiadau Asesiad o Anghenion Strategol Trais Difrifol Dyfed Powys.
ii. Nodi Strategaeth Trais Difrifol Dyfed Powys.

Rhesymau am y penderfyniad:
Er mwyn i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu gyflawni ei rôl o wneud trosolwg o effeithiolrwydd cyffredinol y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol.

Enw Cyswllt: Timothy Bray

Swydd: Rheolwr Partneriaethau ac Argyfyngau Sifil

Dyddiad yr Adroddiad: 20 Mai 2024

Acronymau:

CCE	Camfanteisio Troseddol ar Blant
CSEA	Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant a Cham-drin Plant
IRIS	Adnabod ac Atgyfeirio i Wella Diogelwch
VAP	Trais yn erbyn y Person

Atodiadau

Atodiad 1 – Asesiad o Anghenion Strategol Trais Difrifol Dyfed Powys
Atodiad 2 – Strategaeth Dyletswydd Trais Difrifol Dyfed Powys